# CYNGOR

**(*CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMS*)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Mercher, 14 Rhagfyr 2022**

| | |
|---|---|
| **Y Maer:** | **Cynghorydd Robert Wood** |
| **Y Dirprwy Faer** | **Cynghorydd Chris Williams** |
| **Cynghorwyr:** | A.R.Aubrey, T.Bowen, W.Carpenter, H.C.Clarke, C.Clement-Williams, M.Crowley, A.Dacey, H.Davies, H.Davies, O.S.Davies, R.Davies, S.E.Freeguard, N.Goldup-John, W.F.Griffiths, S.Harris, J.Henton, S.K.Hunt, J.Hurley, C.James, N.Jenkins, J.Jones, R.G.Jones, S.Jones, C.Jordan, D.Keogh, S.A.Knoyle, E.V.Latham, C.Lewis, D.Lewis, A.Llewelyn, A.Lodwig, R.Mizen, K.Morris, S.Paddison, D.M.Peters, C.Phillips, R.Phillips, S.Pursey, S.Rahaman, P.A.Rees, S.Renkes, S.H.Reynolds, A.J.Richards, P.D.Richards, P.Rogers, M.Spooner, S.Thomas, D.Whitelock, C.Williams, L.Williams a/ac R.W.Wood |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | S.Curran, C.Griffiths, A.Jarrett, K.Jones, N.Pearce, M.Shaw, A.Thomas, A.Thomas a/ac J.Woodman-Ralph |
| **Cynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Cyfieithu:** | Nerys Hurford |

---

## 1. CYHOEDDIADAU'R MAER

Cyflwynwyd y cyngor i'r dechnoleg cyfieithu Cymraeg ar y pryd ac roedd aelodau'n hapus ei bod wedi'i chyflwyno ac roeddent yn edrych ymlaen at ei gweld yn cael ei defnyddio yn ystod cyfarfodydd yn y dyfodol.

Atgoffodd yr Arglwydd Faer y cyngor y cynhelir Cyngerdd Nadolig Blynyddol y Maer nos Sul 18 Rhagfyr ac anogodd aelodau i fod yn bresennol lle bynnag y bo modd.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

## 3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

## 4. POLISI CYFARFOD AML-LEOLIAD (TUDALENNAU 3 - 24)

Cyflwynodd y Cynghorydd Saifur Rahaman (Cadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd) adroddiad a oedd yn cadarnhau Polisi Cyfarfodydd Aml-leoliad y cyngor a gafodd ei ddatblygu, ei ystyried a'i gymeradwyo'n flaenorol gan Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd.

Roedd aelodau'n hapus i gefnogi'r polisi ac roeddent yn croesawu'r lefelau uwch o gyfranogiad y cyhoedd y byddai'r polisi'n caniatáu.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r Polisi Cyfarfodydd Aml-leoliad drafft.

Rhoi awdurdod dirprwyedig i Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ddiweddaru Cyfansoddiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot i adlewyrchu cymeradwyo'r Polisi Cyfarfodydd Aml-leoliad.

## 5. NEWIDIADAU I AELODAETH PWYLLGORAU A CHYRFF ALLANOL (TUDALENNAU 25 - 28)

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yr adroddiad a oedd yn awdurdodi newidiadau i ddyrannu seddi ar bwyllgorau cynghorau a chyrff allanol i'r grwpiau gwleidyddol fel y manylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo'r newidiadau i aelodaeth pwyllgorau fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

6. **CYNLLUN GOSTYNGIAD TRETH Y CYNGOR (TUDALENNAU 29 - 42)**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gyllid, Perfformiad a Chyfiawnder Cymdeithasol yr adroddiad, i awdurdodi Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor ar gyfer 2023/24.

**PENDERFYNWYD:**

Bydd y cyngor yn mabwysiadu Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 fel y'u diwygiwyd ymhellach gan Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2023 ac unrhyw ddiwygiadau dilynol a all fod yn ofynnol gan ddeddfwriaeth mewn perthynas â Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2023.

Bydd y cyngor yn cymeradwyo cadw'r elfennau dewisol presennol mewn perthynas â'r Cynllun Rhagnodedig:
(i) Ni fydd unrhyw gynnydd yn y cyfnod ôl-ddyddio ar gyfer pob hawliwr yn cael ei roi ar waith o'r 3 mis safonol a gynhwysir yn y Cynllun Rhagnodedig.
(ii) Ni fydd unrhyw gynnydd yn y cyfnod gostyngiad estynedig ar gyfer pob hawliwr yn cael ei roi ar waith o'r 4 wythnos safonol sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Rhagnodedig ar hyn o bryd.
(iii) Cymhwyso diystyriad 100% ar gyfer Pensiynau Anabledd Rhyfel, Pensiynau Rhyfel Gwŷr a Gwragedd Gweddw ar gyfer pob hawliwr.

7. **HYSBYSIAD O GYNNIG DAN ADRAN 10 RHAN 4 (RHEOLAU GWEITHDREFNAU) CYFANSODDIAD Y CYNGOR**

Ni dderbyniwyd unrhyw Hysbysiadau o Gynnig.

8. **CWESTIYNAU GAN AELODAU, GYDA HYSBYSIAD, DAN REOL 9.2 RHEOLAU GWEITHDREFNAU'R CYNGOR**

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

9. **EITEMAU BRYS**

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

**CHAIRPERSON**